Ymateb Ysgrifenedig Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar Wasanaethau Eirioli ar gyfer Plant a Phobl Ifanc

Crynodeb Gweithredol

Diben yr ymateb ysgrifenedig hwn yw cyflwyno ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru[1] (a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2008) ar wasanaethau eirioli ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru. Ystyriodd y Pwyllgor gynigion Llywodraeth Cynulliad Cymru yr ymgynghorwyd yn eu cylch yn ystod haf 2007[2] ynghylch rhoi ar waith fodel gwasanaeth integredig newydd ar gyfer eiriolaeth. Mae'r adroddiad yn cyflwyno 12 o argymhellion. Mae'n rhaid ystyried yr ymatebion yn y ddogfen hon ar y cyd â'r datganiad ysgrifenedig[3] gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a gyhoeddwyd ar 13 Mawrth 2008 a amlinellodd fesurau newydd ar gyfer rhoi rhagor o lais i blant a phobl ifanc drwy weithredu *Fframwaith Gwasanaeth Newydd ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eirioli yng Nghymru yn y Dyfodol*. Bydd y Fframwaith newydd yn cynnwys:

- Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol (a fydd yn cynnwys pobl ifanc);
- Uned Datblygu Eiriolaeth a Pherfformiad o fewn Llywodraeth y Cynulliad';
- Gwasanaeth Eirioli a Chynghori Cenedlaethol yn cynnig pwynt cyswllt unigol **ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc** a fydd yn weithredol yn 2009-10;
- Gwasanaeth eirioli arbenigol ac integredig lleol/rhanbarthol a gomisiynir drwy Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc – yn unol â'r model a amlinellwyd yn ymgynghoriad Llywodraeth y Cynulliad yn 2007

Croesawa Llywodraeth Cynulliad Cymru archwiliad trylwyr y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc o'r mater hollbwysig hwn. Croesawa Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ogystal ei argymhellion, ac yn arbennig o ran datblygu gweithlu medrus ac amrywiol o eiriolwyr proffesiynol ac eiriolwyr lleyg a chynnwys plant a phobl ifanc yn fwy wrth ddatblygu gwasanaethau eirioli a sicrhau eu hansawdd. Amlinellir isod ymateb ysgrifenedig Llywodraeth Cynulliad Cymru i argymhellion unigol yr adroddiad, a bydd yn ategu'r *Fframwaith Gwasanaeth Newydd* a gaiff ei roi ar waith yn ystod 2008-2010 ac yn cyd-fynd ag ef. Mae Llywodraeth y Cynulliad, wrth wneud ei phenderfyniad, wedi ystyried yn ofalus

[1] Adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc: Gwasanaethau Eirioli ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru (2008) i'w weld yn; www.assemblywales.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third-assem/bus-committees-thirdcyp-home.htm

[2] Model Gwasanaeth Newydd ar gyfer Cyflwyno Gwasanaethau Eirioli i Blant a Phobl Ifanc, Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007)

[3] Datganiad Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, gan y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau a'r Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol (13 Mawrth, 2008) i'w weld yn www

yr holl dystiolaeth a'r safbwyntiau a gasglwyd oddi wrth ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys sylwadau'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, yr ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus yn 2007, ac yn bwysicaf oll safbwyntiau plant a phobl ifanc.

Cred Llywodraeth Cynulliad Cymru y bydd y *Fframwaith Gwasanaeth Newydd ar gyfer Gwasanaethau Eirioli* yn gwella'n sylweddol y modd y darperir gwasanaethau eirioli hygyrch ac annibynnol sydd o'r radd flaenaf. Bydd holl blant a phobl ifanc Cymru yn elwa arno a bydd yn gam mawr ymlaen o ran cyflawni ein hymrwymiad i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, drwy sicrhau ein bod yn gwrando ar yr hyn y mae plant a phobl ifanc yn dweud wrthym ac yn cymryd camau yn ei gylch.

Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru

Argymhella'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc;

Argymhelliad 1: *Yn dilyn proses ymgynghori briodol, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sefydlu uned eirioli genedlaethol a gaiff ei hariannu'n ganolog, gyda chyfrifoldeb am gomisiynu gwasanaethau eirioli mewn ardaloedd lleol, ac am gomisiynu gwasanaethau arbenigol, yn genedlaethol, ar gyfer grwpiau fel plant ceiswyr lloches. Wrth gomisiynu gwasanaethau mewn ardaloedd lleol, byddai'r uned eirioli'n ystyried strwythurau rhanbarthol a lleol, ystyriaethau daearyddol a safbwyntiau Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc.*

Cytuno'n Rhannol: Mae Uned Eirioli wedi'i sefydlu o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru ac mae'n gyfrifol am gomisiynu gwasanaeth eirioli/cynghori cenedlaethol y bydd pob plentyn a pherson ifanc yn gallu manteisio arno. Bydd ei gyfrifoldebau eraill yn cynnwys: ystyried yr angen i gomisiynu eiriolaeth arbenigol ar gyfer grwpiau fel ceiswyr lloches; datblygu fframwaith rheoleiddio ar gyfer gwasanaethau eirioli; datblygu safonau galwedigaethol cenedlaethol ar gyfer eiriolaeth a darparu hyfforddiant ar gyfer staff a phobl eraill sy'n gweithio gyda phlant, gan gynnwys plant a phobl ifanc eu hunain.

Bydd y gwasanaeth a gomisiynir yn genedlaethol yn ei gwneud yn bosibl i bawb fanteisio ar gymorth eirioli, 7 diwrnod yr wythnos, drwy ffôn, negeseuon testun ac e-bost. Bydd yn cynnig cymorth a chyngor ar ystod o bryderon a fynegir gan blant a phobl ifanc. Bydd y gwasanaeth cenedlaethol yn meithrin y cysylltiadau angenrheidiol â gwasanaethau cymorth eraill fel Childline Cymru a'r NSPCC. Bydd hefyd, lle y bo'n briodol, yn atgyfeirio unigolion at y **gwasanaethau eirioli arbenigol ac integredig lleol/rhanbarthol.** Caiff y materion a gaiff eu hatgyfeirio i'r gwasanaeth eu cofnodi gan yr Uned, a bydd yr Uned yn cyflwyno adroddiad arnynt a'u mapio er mwyn gwella'r ddealltwriaeth o'r problemau y mae plant yn eu hwynebu a'r wybodaeth a ddefnyddir fel sail ar gyfer cynllunio cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ac ar gyfer comisiynu gwasanaethau plant. Caiff y gwasanaeth cenedlaethol a swyddogaethau'r Uned eu datblygu drwy ymgynghori â'r **Bwrdd Eiriolaeth**

Annibynnol Cenedlaethol. Caiff yr Uned a'r Bwrdd eu sefydlu yn ddi-oed. Bydd angen i'r drefn o benodi unigolion i'r Bwrdd gyd-fynd â gweithdrefnau Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer penodiadau cyhoeddus a hefyd y Cod Penodiadau Cyhoeddus. Bydd aelodau'r Bwrdd yn cynnwys pobl ifanc.

Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi'r argymhelliad y dylai'r Uned gomisiynu gwasanaethau lleol/rhanbarthol. Darperir y rhain gan awdurdodau lleol a'u partneriaid ar hyn o bryd wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau statudol (Deddf Plant 1989 a Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006[4]) o safbwynt darparu gwasanaethau eirioli ar gyfer sylwadau neu gwynion. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn mynd i'r afael ag ailgyflunio gwasanaethau lleol fel y caiff **gwasanaethau eirioli arbenigol ac integredig** eu cynllunio a'u comisiynu yn y dyfodol gan Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc yr awdurdodau lleol. Bydd gofyn statudol o hyd i'r awdurdodau lleol a'u partneriaid iechyd ddarparu'r gwasanaethau hyn a bydd gofyn i bob partner gydweithredu wrth gynllunio a chomisiynu gwasanaethau eirioli integredig fel rhan o'u dyletswydd i gydweithredu a chynllunio'r ddarpariaeth o dan Ddeddf Plant 2004. Bydd hefyd yn sicrhau y gall eiriolaeth ddatblygu ar y cyd â pholisïau ar gyfranogiad lleol a hawliau plant. Yn ogystal ag ymgynghori â rhanddeiliaid lleol ynghylch eu cynlluniau comisiynu, bydd gofyn i'r Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc hefyd ymgynghori â'r Uned a'r Bwrdd.

Bydd y gwasanaeth yn creu pwynt cyswllt unigol ar gyfer plant sy'n dymuno mynegi pryder neu gwyno ynghylch gwasanaeth statudol neu ynghylch penderfyniadau eraill allweddol sy'n effeithio ar eu bywydau. Bydd gofyn i'r Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc gomisiynu'r gwasanaethau integredig drwy ddarparwr trydydd parti o'r sector annibynnol. Caiff darparwyr eu rheoleiddio a'u cofrestru ag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) a bydd gofyn i eiriolwyr sy'n gweithio mewn gwasanaeth arbenigol gofrestru â Chyngor Gofal Cymru (y Cyngor) a bodloni Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol a chymwysterau. Bydd y trefniadau rheoleiddio newydd yn eu lle erbyn 2011.

Bydd y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc yn derbyn canllawiau statudol ynghyd â phecynnau ategol a fydd yn eu cynorthwyo i ddatblygu trefniadau comisiynu effeithiol ar gyfer gwasanaethau eirioli. Bydd y rhain yn cynnwys

---

[4] adran 187(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.
Independent advocacy services for the purposes of section 187(1) are defined in subsection (2) as services providing assistance to individuals making or intending to make

(a) a complaint under a procedure operated by a health service body or independent provider
(b) a complaint under section 113(1) or (2) of the Health and Social Care (Community Health and Standards) Act 2003
(c) a complaint to the Health Service Commissioner for England or the Public Service Ombudsman for Wales
(d) a complaint of a prescribed description which relates to the provision of services as part of the health service; and
(i) is made under a procedure of a prescribed prescription; or
(ii) gives rise, or may give rise, to proceedings of a prescribed description.

This function is currently being carried out by the Community Health Council pursuant to regulation 22 of the Community Health Council Regulations 2004.

contract cyffredin, manyleb wedi'i safoni o wasanaeth craidd, safonau ar gyfer gwasanaethau ynghyd â threfniadau ar gyfer monitro ac adolygu contractau. Bydd y protocolau newydd yn ategu'r rhai a sefydlwyd rhwng Darparwyr Eiriolaeth Cymru Gyfan, Cafcass Cymru a Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru.

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) hefyd wedi ymrwymo i gynorthwyo Partneriaethau Plant Phobl Ifanc wrth iddynt roi'r trefniadau newydd hyn ar waith, ac yn arbennig wrth iddynt ddatblygu eu rôl gomisiynu.

Gwasanaethau Eirioli Arbenigol ac Integredig Rhanbarthol– Mae nifer o Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc wedi mynegi diddordeb mewn datblygu gwasanaethau eirioli yn y dyfodol ar y cyd â Phartneriaethau Plant a Phobl Ifanc cyfagos. Er mwyn hyrwyddo'r gwaith hwn ac yn unol â'n polisi Creu'r Cysylltiadau[5] bydd Llywodraeth y Cynulliad yn annog Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc mewn consortia i ddatblygu a chomisiynu ar y cyd wasanaethau eirioli integredig a bydd yn darparu grant untro ar gyfer sefydlu trefniadau consortia. Byddwn hefyd yn cynnig gwasanaeth ymgynghori annibynnol o natur gyfyngedig er mwyn hwyluso'r gwaith o gynllunio, comisiynu, caffael a monitro gwasanaethau integredig.

Argymhelliad 2: *Dylai uned eirioli Llywodraeth Cynulliad Cymru gynnwys plant a phobl ifanc yn y broses o benderfynu i ba ddarparwyr eiriolaeth y dylid rhoi contract, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol. Byddai'r argymhelliad hwn yn gymwys pan fyddai'r uned yn comisiynu gwasanaethau eirioli lleol, cyffredinol yn ogystal â gwasanaethau arbenigol cenedlaethol.*

Cytuno mewn Egwyddor: Dylai plant a phobl ifanc gael eu cynnwys a hefyd gael cyfle i fynegi eu barn wrth i'r holl wasanaethau sy'n effeithio arnynt gael eu cynllunio ac wrth i'w safon gael ei sicrhau. Mae hyn yn arbennig o bwysig ym maes eiriolaeth ac fel y nodir yn y safonau cenedllaethol[6] (Cyfeiria Safon 8 at hyn). Mae gan blant a phobl ifanc rôl allweddol o ran cynghori ynghylch sut y gall y gwasanaeth gael ei wella a dylid eu cynnwys wrth recriwtio eiriolwyr a staff eraill sy'n gweithio ym maes cyflenwi a monitro gwasanaethau eirioli. O dan y *Fframwaith Newydd* bydd gofyn i Uned Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc sefydlu systemau effeithiol ar gyfer cynnwys plant a phobl ifanc a'u galluogi i ymwneud â datblygu gwasanaethau eirioli.

Argymhelliad 3: *Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod yr uned eirioli yn trefnu rhaglen hyfforddi i eiriolwyr, mewn portffolio o sgiliau sy'n cael eu cydnabod yn genedlaethol (gan gynnwys, ymhlith sgiliau eraill, gwrando, deall, meithrin perthynas ag eraill a chwnsela). Dylai hyfforddwyr gynnwys y rheini sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth eirioli yn y gorffennol a phlant a phobl ifanc.*

[5] Creu'r Cysylltiadau; Gwell Gwasanaethau i Gymru (2002)
[6] Safonau Cenedlaethol ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth Plant; Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2003)

Cytuno: Bydd Uned Eirioli Llywodraeth Cynulliad Cymru, drwy ymgynghori â darparwyr eiriolaeth, y Bwrdd, Cyngor Gofal Cymru a Chyrff Dyfarnu yn datblygu rhaglen fframwaith genedlaethol a fydd yn cwmpasu cymwysterau ar gyfer eiriolwyr, hyfforddiant ar eu cyfer a threfniadau eu cofrestru. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys datblygu Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, pennu gofynion o ran cymwysterau ar gyfer eiriolwyr plant a modiwlau hyfforddiant wedi'u hachredu ar gyfer staff rheng flaen, gofalwyr ac eraill ynghylch hawliau plant, cyfranogiad ac eiriolaeth yn unol â'r gwaith sy'n mynd rhagddo i sefydlu Fframwaith Cymwysterau a Chredydau ar gyfer y DU a fydd yn rhan o Fframwaith Cymwysterau a Chredydau Cymru. Bydd y gwaith hwn yn mynd rhagddo ar y cyd â gwaith arall i ddatblygu cymhwyster annibynnol mewn eiriolaeth ar gyfer y bobl sy'n gweithio gydag oedolion.

Argymhelliad 4: *Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod yr uned eirioli genedlaethol yn trefnu cyrsiau hyfforddi, drwy ddarparwyr lleol, i ddarpar eiriolwyr lleyg, fel athrawon, cynghorwyr, meddygon, hyfforddwyr dysgu, cogyddion a glanhawyr. Byddai'r uned eirioli'n trefnu hyfforddiant i ddarparwyr lleol er mwyn iddynt hwythau hyfforddi eiriolwyr lleyg. Ni fyddai fyth yn angenrheidiol i ddarpar eiriolwr lleyg fod wedi cael yr hyfforddiant hwn, fodd bynnag, cyn y byddai'n cael lleisio pryder ar ran plentyn neu berson ifanc, ac ni fyddai darpar eiriolwr lleyg byth yn cael ei rwystro rhag ymgymryd â'r swyddogaeth hon dim ond oherwydd nad oedd wedi'i hyfforddi.*

Argymhelliad 5: *Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod yr uned eirioli genedlaethol yn darparu hyfforddiant i wasanaethau eirioli lleol, i'w cynorthwyo i hyfforddi plant a phobl ifanc sy'n defnyddio'u gwasanaethau, i eirioli ar eu rhan eu hunain neu i eirioli ar ran eu cymheiriaid yn y dyfodol.*

Cytuno ag argymhelliad 4 a 5: Mae'n bwysig fod plant yn defnyddio eiriolwr o'u dewis. Nid grŵp unffurf mohono eiriolwyr. Mae plant a phobl ifanc yn troi at ystod o bobl y mae ganddynt berthynas â hwy i weithredu fel eiriolwr, i wrando arnynt ac i fynegi eu pryderon. Mae'r rhain yn cynnwys plant a phobl ifanc eraill sy'n gweithio fel eiriolwyr cymheiriaid neu sy'n hwyluso hunan-eiriolaeth.

Bydd y fframwaith cenedlaethol ar gyfer sgiliau a hyfforddiant mewn eiriolaeth (gweler argymhelliad 3) sydd i'w ddatblygu gan yr Uned Eirioli yn cynnwys modiwlau hyfforddiant wedi'u hachredu ar gyfer staff rheng flaen fel athrawon, meddygon, cogyddion, glanhawyr etc yn ogystal â hyfforddiant cynefino llai ffurfiol. Rhagwelir mai gwirfoddol fydd yr hyfforddiant lleol ar gyfer gwella sgiliau eiriolwyr lleyg ac ni ddylai fyth rwystro unigolyn rhag chwarae rhan eiriolwr lleyg.

Mae gan ddarparwyr gwasanaethau eirioli rôl bwysig o safbwynt defnyddio eu profiad a'u gwybodaeth er mwyn hyrwyddo eiriolwyr lleyg o safbwynt mentora, rhannu gwybodaeth, gwybodaeth a sgiliau. Mae'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth a'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl

Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth, (safon 2.1) a rhaglenni cyfranogi yn hyrwyddo hyfforddiant mewn hawliau plant.

Argymhelliad 6: *Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru drefnu bod system arolygu gadarn, annibynnol ar gael ar gyfer:*

- *Yr uned eirioli genedlaethol;*
- *Gwasanaethau lleol sy'n darparu eiriolaeth,*
- *Gwasanaethau cenedlaethol sy'n rhoi gwasanaeth eirioli arbenigol.*

Cytuno'n rhannol: Bydd y *Fframwaith Gwasanaeth Newydd* yn cynnwys trefniadau arolygu a threfniadau llywodraethu. Caiff y gwasanaethau integredig lleol a chenedlaethol eu rheoleiddio o dan Ddeddf Safonau Gofal 2002 a'u harolygu gan AGGCC. Gan ddibynnu ar amseriad y diwygiadau angenrheidiol i'r Ddeddf Safonau Gofal, byddwn yn gweithredu trefniant gweinyddol interim.

Ni fyddai'n briodol, fodd bynnag, estyn y gwaith arolygu i gynnwys yr Uned Eirioli. Diben rheoleiddio ac arolygu yw sicrhau ansawdd a diogelwch gwasanaeth ynghyd â sgiliau y bobl sy'n ei ddarparu. Mae hefyd yn sicrhau y caiff profiad a safbwyntiau y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau eu hystyried wrth arolygu ac wrth lunio unrhyw argymhelliad sy'n deillio o arolygiadau.

Nid darparwr gwasanaeth mohono'r Uned. Caiff ei rhedeg gan weision sifil Llywodraeth y Cynulliad a fydd yn meddu ar y sgiliau a'r profiad priodol. Mae pob gwas sifil yn rhwym wrth God y Gwasanaeth Sifil, a chaiff eu gwaith ei fonitro drwy systemau Perfformiad penodedig. Bydd yr Uned yn cydweithio â'r *Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol* ac yn ei gynorthwyo. Bydd y Bwrdd yn edrych mewn modd strategol ar ddatblygiad eiriolaeth a'r modd y'i cyflenwir a bydd yn cyflwyno argymhellion i Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

Argymhelliad 7: *Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru drefnu bod system arolygu'r gwasanaethau eirioli'n cynnwys dadansoddiad o sgiliau darparwyr eiriolaeth (gan gynnwys, ymhlith sgiliau eraill, gwrando, deall, cwnsela a meithrin perthynas ag eraill).*

Cytuno: Caiff sgiliau darparwyr gwasanaethau eirioli a sgiliau unigolion eu monitro a'u mesur fel rhan o systemau arolygu a systemau eraill ar gyfer mesur perfformiad a'r gweithlu. Mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol a'r canllawiau statudol presennol ar gyfer gwasanaethau eirioli o dan Ddeddf Plant 1989 yn amlinellu'r polisïau a'r gweithdrefnau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol a'u partneriaid gadw atynt wrth recriwtio, dethol, hyfforddi ac asesu addasrwydd eiriolwyr sy'n gweithio gyda phlant [gweler hefyd yr ymateb i argymhelliad 1, 3 a 5].

Awgryma astudiaeth o sgiliau a chymwysterau darparwyr eiriolaeth[7] (y sawl a gomisiynwyd gan awdurdodau lleol i ddarparu eiriolaeth statudol) yn 2006 fod

[7] All Wales Advocacy Provider Audit of Qualifications/Skills of Advocates (Mehefin 2006)

gan lawer ohonynt eisoes gymhwyster mewn gwaith cymdeithasol, addysgu, nyrsio neu waith ieuenctid. Gwelwyd yn ogystal bod ganddynt bolisïau clir ar gyfer sicrhau datblygiad parhaus eiriolwyr.

Bydd y bwriad i gofrestru eiriolwyr yn y dyfodol ynghyd â'r gofyn iddynt fodloni Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol a chymwysterau penodedig yn sicrhau bod digon o gapasiti, sgiliau a phrofiad yn y gwasanaeth fel y gall eiriolwyr gynorthwyo plant, gweithwyr proffesiynol ym maes hyfforddiant ac eraill ag eiriolaeth, cyfranogiad a hawliau plant. Mae ganddynt hefyd rôl hollbwysig o safbwynt hyrwyddo newid o ran diwylliant ar draws gwasanaethau er mwyn sicrhau bod sgiliau gwrando, deall, cynorthwyo a meithrin cysylltiadau â phlant i ennyn eu hymddiriedaeth a'u hyder yn dod yn rhan o'r brif ffrwd.

Argymhelliad 8: *Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gynnwys plant a phobl ifanc yn y gwaith o ddatblygu gwasanaeth ffôn a neges destun am ddim i blant a phobl ifanc. Dylai'r gwasanaeth ffôn hwn fod am ddim o ffonau symudol yn ogystal â ffonau tirwifren. Yn ogystal â gwrando ar bryderon y rheini sy'n ffonio, byddai'r gwasanaeth hwn yn gallu rhoi gwybodaeth iddynt am ddarparwyr eiriolaeth a allai eu helpu gyda phryderon penodol. Dylai'r gwasanaeth hwn fod ar gael bob awr o'r dydd a'r nos.*

Cytuno: Caiff plant a phobl ifanc eu cynrychioli ar y Bwrdd a byddant yn cael eu cynnwys ymhob datblygiad mewn perthynas â'r *Fframwaith Gwasanaeth Newydd* ar gyfer gwasanaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Rhagwelir y bydd y gwasanaeth cenedlaethol ar gael 7 diwrnod yr wythnos drwy ystod o wahanol ffyrdd, gan gynnwys ffôn, negeseuon testun ac e-bost. Bydd y gwasanaeth cenedlaethol yn cynnwys systemau ar gyfer atgyfeirio a chyswllt uniongyrchol â darparwyr gwasanaethau eirioli integredig lleol/rhanbarthol a all gynnig cymorth mwy arbenigol neu a all ymdrin â materion y mae angen eu datrys yn lleol. Bydd Uned Eirioli Llywodraeth y Cynulliad yn cydweithio â gwasanaethau cymorth eraill fel Childline Cymru a'r NSPCC er mwyn osgoi dyblygu neu ddryswch o safbwynt pwy sy'n darparu pa wasanaethau cymorth a chwmpasu'r gofyn am wasanaeth 24 awr, ei ymarferoldeb a'r manteision a fyddai'n deillio ohono.

Argymhelliad 9: *Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gynnwys plant a phobl ifanc yn y gwaith o ddatblygu system hysbysebu ar gyfer ei gwasanaeth ffôn a neges destun di-dâl i blant a phobl ifanc. Yn yr hysbysebion, dylid egluro'r hyn yw eiriolaeth, a sut y gall helpu plant a phobl ifanc.*

Cytuno. Mae cynnwys plant a phobl ifanc wrth ddatblygu deunyddiau yn cyd-fynd â phrif ofynion y Safonau Gofynnol Cenedlaethol presennol. Mae Safonau 3 a 4 yn pennu ei bod yn ofynnol i wasanaethau eirioli gael eu hyrwyddo'n briodol, a'u bod yn hybu cydraddoldeb. Pwysleisia'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol fanteision cynnwys plant a phobl ifanc wrth gynllunio deunyddiau ynghyd â dulliau arloesol o sicrhau mynediad, yn benodol er mwyn darparu ystod o ddulliau cyfathrebu ar gyfer plant anabl a'r rhai ag anawsterau dysgu. Bydd angen i'r gwasanaeth hefyd gael ei ddarparu'n ddwyieithog; ac ystyried anghenion plant a phobl ifanc nad Cymraeg na Saesneg yw eu hiaith gyntaf.

Argymhelliad 10: *Drwy gytundebau lefel gwasanaeth, a bennir drwy'r uned eirioli, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod plant a phobl ifanc fel arfer yn cael dewis eu heiriolwyr.*

Cytuno: Caiff y gwaith hwn ei hyrwyddo ar hyn o bryd drwy Safonau Gofynnol Cenedlaethol a chanllawiau. Caiff ei atgyfnerthu drwy ganllawiau statudol newydd ynghylch y gwasanaethau eirioli integredig a ddatblygir gan Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc [gweler yr ymateb i argymhelliad 5]. Dros amser dylai'r gwaith ynghyd â chapasiti yr unigolion sydd wedi'u hyfforddi (fel eiriolwyr proffesiynol neu eiriolwyr lleyg) gynyddu'r cyfleoedd ar gyfer plant a phobl ifanc i ddewis eu heiriolwr.

Argymhelliad 11: *Drwy gytundebau lefel gwasanaeth, i'w pennu gan yr uned eirioli, a thrwy hyfforddiant a systemau arolygu, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod eiriolwyr yn cadw sylwadau plant a phobl ifanc yn gyfrinachol, oni bai y gallai hynny olygu bod y plentyn neu'r person ifanc, neu berson arall sy'n agored i niwed, fod yn agored i berygl uniongyrchol neu niwed sylweddol. Mae diffiniad o 'niwed sylweddol' a 'pherygl uniongyrchol' i'w weld ym Mholisi Cyfrinachedd Comisiynydd Plant Cymru yn Atodiad 3.*

Cytuno: Nid yw eiriolaeth ond yn effeithiol os yw plant a phobl ifanc yn hyderus bod eiriolwyr yn gweithio drostynt hwy yn unig. Mae cyfrinachedd, gonestrwydd ac ymddiriedaeth yn agweddau allweddol ar berthynas rhwng yr eiriolwr a'r plentyn neu'r person ifanc. Amlinella'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol a'r canllawiau yn glir y gofyn i wasanaethau eirioli fod â pholisïau pendant ynghylch cyfrinachedd yn seiliedig ar niwed arwyddocaol sy'n cyd-fynd â gofynion statudol Byrddau Diogelu Lleol[8], gweithdrefnau a'r gyfraith. Mae'n allweddol fod pob plentyn a pherson ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaethau eirioli yn ymwybodol o'r polisïau cyfrinachedd. Mae'n hanfodol yn ogystal fod pob gwasanaeth ynghyd â pholisïau Byrddau Diogelu Lleol a chyrff ac unigolion eraill yn gweithio o fewn cyd-destun y statud a'r canllawiau yn Diogelu Plant; Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004 ac o fewn diffiniadau cyfreithiol adran 31 o Ddeddf Plant 1989 a diffiniad polisi estynedig.

Noda Adran 31 (10);

[8] Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004 (2006)

"where the question of whether a harm suffered by a child is significant turns on the child's health or development, his health or development shall be compared with that which could reasonably be expected of a similar child".

Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyhoeddi canllawiau statudol diwygiedig yn ddiweddarach eleni er mwyn adlewyrchu datblygiadau mwy diweddar yn y gyfraith o ran arferion, yn arbennig yr adolygiad o reoliadau a chanllawiau ynghylch Byrddau Diogelu Plant Lleol. Bydd y canllawiau hyn yn annog Byrddau Diogelu Plant Lleol i gynnwys person i gynrychioli gwasanaethau eirioli lleol ar y rhestr o gyrff y gallent ddymuno dewis partneriaid wedi'u cyfethol o'u plith i eistedd ar Fyrddau lleol.

Caiff mesurau diogelu er mwyn sicrhau cyfrinachedd eu cynnwys mewn rheoliadau ac arferion o dan y Fframwaith Newydd ac mae'n hanfodol rhoi sicrwydd i blant a phobl ifanc fod eu preifatrwydd yn cael ei barchu. Ni ddylai gwybodaeth gael ei datgelu, oni bai y byddai peidio â'i datgelu yn awgrymu niwed sylweddol, neu os yw'n ofynnol o dan orchymyn llys. Mewn achosion o'r fath byddai disgwyl i eiriolwyr egluro i'r plentyn neu'r person ifanc y rhesymau dros ddatgelu'r wybodaeth a hefyd gofnodi'n ysgrifenedig y camau a gymerwyd ganddynt a'r rhesymau drostynt.

Argymhelliad 12: *Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru roi cyfarwyddyd i'r uned eirioli gomisiynu gwasanaethau eirioli drwy gynnig cytundebau tair blynedd fel arfer, gyda'r posibilrwydd o ymestyn y cyfnod hwn, er mwyn sicrhau sefydlogrwydd a pharhad*

Cytuno: Rhagwelir y caiff y gwasanaethau eirioli eu comisiynu yn genedlaethol/rhanbarthol ac yn lleol drwy gylch comisiynu bob tair blynedd yn unol â'r cylch 3 blynedd statudol ar gyfer Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc[9] a bydd yn hyblyg fel y gellir estyn neu leihau (lle y bo angen) hyd contract. Dylai manylebau wedi'u safoni a chontractau cyffredinol ar gyfer eiriolaeth a gomisiynir gan Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc helpu i sicrhau sefydlogrwydd a pharhad.

Jane Hutt AC, **Ebrill 2008**
Y Gweinidog dros Plant, Addysg,
Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

[9] Cynllunio ar y Cyd i Wella Canlyniadau, Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru 31/2007 (Medi, 2007) – Rheoliadau Cynllun Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2007